**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-983
Ein cyf/Our ref KS/05022/20

Janet Finch-Saunders AS
Aelod o'r Senedd
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@gov.wales

19 Awst 2020

Annwyl Janet

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Awst at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ynghylch Deiseb P-05-983 – rhoi grant i fusnesau Gwely a Brecwast yng Nghymru sy'n talu treth y cyngor ond nid ardrethi busnes. Rwy'n ateb y llythyr oherwydd fy nghyfrifoldebau o dan y portffolio.

Rwy'n cydnabod na fydd pob busnes yn gallu elwa ar ein pecyn o gymorth. Cafodd y pecyn ei greu i fod yn fforddiadwy o safbwynt yr arian sydd ar gael, a bu'n rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd ynghylch pwy sy'n gymwys amdano. Mae opsiynau eraill y gallai'r mathau hyn o fusnesau eu hystyried megis cymorth ariannol ar lefel Llywodraeth y DU gan gynnwys Benthyciadau Adfer, y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig a'r Cynllun Benthyciadau Tarfu ar Fusnes.

O ran eich ail gwestiwn ynghylch a fyddai modd i lety gwely a brecwast ddefnyddio cyllid Llywodraeth y DU yn y dyfodol, rydym yn dal i drafod ag amrywiaeth o randdeiliaid ac yn adolygu'n pecyn o gymorth i weld a allwn wneud mwy trwyddo. Mae'n amlwg bod angen i Lywodraeth y DU gamu i'r adwy a darparu'r arian ychwanegol sydd ei angen i helpu busnesau i oroesi'r pandemig.

Mae gan Busnes Cymru amrywiaeth eang o gymorth cynghori anariannol y gall ei gynnig. Rydym yn annog unrhyw fusnes sy'n teimlo effeithiau'r pandemig i gysylltu â Busnes Cymru ar eu gwefan https://busnescymru.llyw.cymru neu i ffonio llinell gymorth Busnes Cymru ar 03000 6 03000.

Yn gywir

**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.